# Agenda - Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1&2 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 14 Mehefin 2023

Amser: 09.30 - 12.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Lleu Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDiwylliant@senedd.cymru

## Cofrestru cyn y cyfarfod

(09.15 - 09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

(09.30)

## 2 Papurau i'w nodi

(09.30)

### 2.1 Cysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru

(Tudalennau 1 - 4)

Dogfennau atodol:

- Llythyr at y Prif Weinidog: Ynghylch: Mynd ar drywydd gwaith craffu ar gysylltiadau rhyngwladol - 7 Mehefin 2023
- Cysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru - Mai 2023 (Saesneg yn unig)

### 2.2 Diogelu'r casgliadau cenedlaethol

(Tudalennau 5 - 6)

Dogfennau atodol:

- Llythyr at Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth: Ynghylch: Diogelu'r Casgliadau Cenedlaethol - 7 Mehefin 2023

### 2.3 Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon

(Tudalennau 7 - 10)

Dogfennau atodol:

- Llythyr gan y Prif Weinidog: Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon - 24 Mai 2023
- Llythyr at y Prif Weinidog: cysylltiadau rhwng: Ynghylch: Llythyr yn dilyn sesiwn dystiolaeth weinidogol - 7 Mehefin 2023

### 2.4 Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2)

(Tudalennau 11 - 15)

Dogfennau atodol:

- Llythyr at y Prif Weinidog: Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2) - 15 Mai 2023

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

(09.30)

## 4 Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Diogelwch Ar-lein

(09.30 - 09.40) (I ddilyn)

Dogfennau atodol:

- Nodyn cyngor cyfreithiol: Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Diogelwch Ar-lein

## 5 Clwstwr: Crynodeb o'r rhaglen 5 mlynedd

(09.40 - 10.20) (Tudalennau 16 - 24)

- Yr Athro Justin Lewis, Cyfarwyddwr, Clwstwr
- Sara Pepper, Prif Swyddog Gweithredu, Clwstwr

Dogfennau atodol:

- Cyflwyniad gan Clwstwr: Lle mae syniadau'n blaguro

## 6 Rhaglen 5 mlynedd Clwstwr: trafod y dystiolaeth

(10.20 - 10.30)

## Egwyl

(10.30 - 10.35)

## 7 Yr heriau sy'n wynebu gweithlu'r diwydiant creadigol: trafod y materion allweddol

(10.35 - 11.20) (Tudalennau 25 - 45)

Dogfennau atodol:

- Papur ar y materion allweddol: yr heriau sy'n wynebu gweithlu'r diwydiant creadigol

## Egwyl

(11.20 - 11.30)

## 8 Bil Addysg Gymraeg

(11.30 - 12.30)

- Bethan Webb, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cymraeg 2050, Llywodraeth Cymru
- Iwan Evans, Arweinydd Polisi, Bil Addysg Gymraeg, Llywodraeth Cymru

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Mark Drakeford AS
Y Prif Weinidog
Llywodraeth Cymru

7 Mehefin 2023

Ynghylch: Mynd ar drywydd gwaith craffu ar gysylltiadau rhyngwladol

Annwyl Mark,

Ysgrifennaf atoch yn dilyn ein gwaith craffu blynyddol ar waith Llywodraeth Cymru ym maes cysylltiadau rhyngwladol ddydd Mercher, 10 Mai 2023, . Hoffai'r Pwyllgor fynegi ei ddiolchgarwch am yr amser a gymeroch i rannu'r gwaith sydd wedi bod yn mynd r ac am eich llythyr ar 24 May 2023 yn rhoi rhagor o wybodaeth hagddo dros y flwyddyn ddiwethaf gyda ni, a'ch uchelgeisiau ar gyfer cysylltiadau rhyngwladol yn y dyfodol. Yn ystod y cyfarfod, cytunwyd i fynd ar drywydd nifer o faterion a nodir isod.

Llythyr at y Gwir Anrhydeddus James Cleverley AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor, y Gymanwlad a Datblygu

Yn ystod y cyfarfod, buom yn trafod eich bod wedi ysgrifennu'n ddiweddar at y Gwir Anrhydeddus James Cleverley AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor, y Gymanwlad a Datblygu. Roedd hynn mewn cysylltiad â'i gyfarwyddiadau i lysgenadaethau Prydain y dylai cynrychiolydd o Lywodraeth y DU fod yn bresennol hefyd mewn cyfarfodydd â Llywodraeth Cymru fel rhan o ymweliad tramor. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech rannu copi o'r llythyr hwnnw, ac unrhyw ymateb a gawsoch.

Memoranda Cyd-ddealltwriaeth

Buom hefyd yn trafod bod Llywodraeth Cymru yn y broses o gytuno ar femoranda newydd gyda Fflandrys a Baden-Württemberg. Byddem yn croesawu'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau, gan gynnwys amserlen ar gyfer rhoi'r memoranda hyn ar waith. Unwaith y cytunir ar y memoranda hyn, byddem yn ddiolchgar o gael copïau i'n helpu i ddeall y cysylltiadau sy'n cael eu datblygu i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Ryngwladol.

Cymru yng Nghanada

Yn ogystal, buom yn trafod lansiad menter Blwyddyn Cymru yn Ffrainc a'r gweithgareddau arfaethedig o amgylch Cwpan Rygbi'r Byd yn yr hydref. Cydnabu'r Aelodau bwysigrwydd digwyddiadau chwaraeon mawr fel llwyfan diplomyddol ar gyfer cynyddu presenoldeb a dylanwad Cymru yn fyd-eang. Wrth i fenter Blwyddyn Cymru yng Nghanada ddod i ben, byddai'r Pwyllgor yn croesawu crynodeb o weithgareddau'r flwyddyn, yn amlinellu llwyddiannau a chanlyniadau allweddol a sut mae'r rhain yn cyd-fynd â'r Strategaeth Ryngwladol. Yn benodol, byddai'r Pwyllgor hefyd yn awyddus i ddeall unrhyw wersi a ddysgwyd o lwyddiant cymharol

gweithgareddau'r flwyddyn flaenorol a sut mae'r rhain wedi llywio newidiadau i'r rhaglen Blwyddyn Cymru yn Ffrainc.

### Ieithoedd brodorol

Byddwch yn ymwybodol bod ieithoedd yn faes diddordeb arbennig i'r Pwyllgor hwn. Yn dilyn diwedd y fenter Blwyddyn Cymru yng Nghanada, a fyddech cystal â rhannu unrhyw wybodaeth â ni am unrhyw waith a wnaed yn benodol yn y maes hwn, gan gynnwys gwaith ynghylch ieithoedd brodorol.

### Blaenoriaethau ar gyfer 2023

Rydych wedi siarad yn helaeth am eich gwaith ar y cyd ag Undeb Rygbi Cymru i hyrwyddo Cymru yn y twrnamaint diwethaf yn Japan yn 2019. Yng ngoleuni'r honiadau diweddar, a Chwpan Rygbi'r Byd yn Ffrainc eleni, a yw perthynas Llywodraeth Cymru ag Undeb Rygbi Cymru i gyflawni ei huchelgeisiau rhyngwladol wedi newid os gwelwch yn dda, a sut?

### Cysylltiadau Cymru a'r UE

A allech ddweud wrthym pa gynlluniau sydd ar gyfer dyfodol rôl cynrychiolydd Llywodraeth Cymru yn Ewrop, os o gwbl.

### Adroddiad Llywodraeth Cymru ar weithgareddau rhyngwladol

Yn olaf, mae gennym nifer o gwestiynau mewn perthynas ag adroddiadau Llywodraeth Cymru ar ei gweithgareddau rhyngwladol, fel a ganlyn:

- A fyddech cystal â rhoi barn Llywodraeth Cymru am gynnydd yn erbyn ei Strategaeth Ryngwladol.
- Eglurwch sut caiff gweithgareddau yn y wlad a theithiau masnach eu cydgysylltu â chenadaethau a llysgenadaethau Llywodraeth y DU i sicrhau gwerth am arian.
- Mae gwybodaeth y Gyllideb Ddrafft a ddarparwyd ynghylch y swyddfeydd tramor yn dweud y bydd pob swyddfa dramor yn gyfrifol am gyflawni yn erbyn eu cylchoedd gwaith unigol. A ydych yn fodlon bod pob swyddfa wedi llwyddo i wneud hynny yn 2022-23?
- Rydych wedi rhoi copi i ni o'ch adroddiad blynyddol ar swyddfeydd tramor, sy'n disgrifio gweithgarwch ar gyfer y cyfnod 2022-23. Mae'r adroddiad yn rhestru digwyddiadau neu ymweliadau sydd wedi digwydd, ond nid yw'n rhoi gwybodaeth am y canlyniadau a gyflawnwyd o ganlyniad. Sut caiff effeithiolrwydd digwyddiadau a gweithgareddau tramor ei fonitro a'i werthuso?
- Yn ystod y cyfarfod, cytunoch i roi'r costau diweddaraf ar gyfer ymweliadau rhyngwladol a gynhaliwyd gan Weinidogion Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol hyd yma. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael hyn.

Byddwn yn parhau i ystyried y materion hyn drwy gydol y Chweched Senedd ac yn croesawu eich parodrwydd i ymgysylltu â'r Pwyllgor a'ch gwahoddiad i gyfrannu at bolisi cysylltiadau rhyngwladol yn y dyfodol, fel y trafodwyd.

Edrychwn ymlaen at gael eich ymateb maes o law.

Yn gywir,



Delyth Jewell AS

Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

## INWARD VISITS – MAY 2023

**16 May** **Visit by Vietnamese Ambassador to the UK**
Bi-lateral meeting with First Minister and the Minister for Education & Welsh Language. The meeting focussed on education links and exchange with Welsh universities and the Taith programme. The First Minister also raised the issue of human rights in Vietnam.

**23 May** **Visit by CPMR Atlantic Arc Commission**
First Minister hosted members of the CPMR Atlantic Arc on their visit to Cardiff to hold its General Assembly. Messages included Welsh Government's commitment to continued cooperation across Europe and the forging of new partnerships. Minister for Economy and Minister for Education and Welsh Language also addressed members during the visit.

**24 May** **Visit by Vice-President of the Regional Council of Brittany**
Informal bi-lateral with Deputy Minister for Climate Change. The meeting discussed the Wales in France year, the MOU between Wales and Brittany and the Celtic Forum, which is scheduled for August.

**24 May** **Visit by Spanish Ambassador to the UK**
Bi-lateral meeting with First Minister to discuss cooperation on student mobility through the Taith programme and exchange of views on green and digital transition.

**25 May** **Visit by Marshal of the Diplomatic Corps and Dean of the Diplomatic Corps**
Bi-lateral meeting with First Minister. The meeting provided an opportunity to raise the profile of the international strategy and the value placed on Wales as a welcoming nation.

## OUTWARD VISITS – MAY 2023

**Nil** NIL

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
**–**
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
**–**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Dawn Bowden AS
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth
Llywodraeth Cymru

7 Mehefin 2023

Ynghylch: Diogelu'r Casgliadau Cenedlaethol

Annwyl Dawn,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Ebrill 2023, mewn ymateb i'n pryderon ynghylch diogelu'r casgliadau cenedlaethol.

Buom yn trafod eich llythyr yn ein cyfarfod ddydd Mercher 10 Mai 2023. Mynegodd yr Aelodau bryderon am y risg i gasgliadau cenedlaethol ein cenedl gan gyfeirio at y tân yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn 2013, pan ddifrodwyd rhan o'r casgliad, yn ogystal â'r tân yn Amgueddfa Genedlaethol Brasil yn 2018, pan gafwyd colledion sylweddol ac anadferadwy. Yn ogystal, yn ystod ymweliad diweddar â Dulyn, ymwelodd yr Aelodau â llyfrgell Coleg y Drindod Dulyn. Yn y llyfrgell, clywsom am y rhaglen fuddsoddi sylweddol a pharhaus i adfer ac uwchraddio hen adeilad llyfrgell y coleg a ysgogwyd yn sgil y tân yn Eglwys Gadeiriol Notre Dame ym Mharis a wnaeth ein hatgoffa ar fyrder bod angen diogelu. Mae'r enghreifftiau hyn yn adlewyrchu'r risg wirioneddol a achosir yn sgil buddsoddiad annigonol mewn gwelliannau hanfodol a gwaith cynnal a chadw i warchod casgliadau ac ystadau o werth diwylliannol a hanesyddol sylweddol.

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod ac yn derbyn yr anhawster sydd gan Lywodraeth Cymru wrth flaenoriaethu adnoddau o ystyried y setliad cyllideb heriol a'r pwysau ychwanegol ar gostau byw. Fodd bynnag, rydym yn parhau i fod o'r farn, fel y mynegwyd i chi yn flaenorol yn ein llythyr dyddiedig 28 Mawrth 2023, bod diogelu ein casgliadau cenedlaethol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn flaenoriaeth. Nid ydym wedi ein sicrhau bod digon yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r bygythiad difrifol posibl i gasgliadau pwysig Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

O ystyried pa mor ddwfn yw pryder parhaus y Pwyllgor, ac er mwyn sicrhau bod y cymorth cywir ar gael i'r sefydliadau hyn dros y tymor hwy, byddem yn ddiolchgar o ddeall y canlynol:

- Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i ddeall y risgiau i'r casgliadau pwysig hyn ac i flaenoriaethu a lliniaru'r risgiau hynny o ystyried bod pwysau ariannu yn debygol o barhau am beth amser.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

- Pa sicrwydd tystiolaethol y gallwch ei roi i’r Pwyllgor fod y casgliadau cenedlaethol a gedwir yn Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn ddiogel ac y byddant yn parhau i fod yn ddioge.

Byddem yn ddiolchgar am ymateb ystyriol i'n cwestiynau maes o law.

Yn gywir,



Delyth Jewell AS

Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Delyth Jewell AS/MS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg,
Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

Delyth.jewell@senedd.cymru

24 Mai 2023

Annwyl Gadeirydd

Yn ystod fy ymddangosiad diweddar gerbron y Pwyllgor ar 10 Mai 2023, cytunais i ddarparu rhywfaint o wybodaeth ychwanegol. Gweler isod.

**Masnach a buddsoddi rhwng Cymru ac Iwerddon**

Mewnfuddsoddiad
Yn ôl data diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol, mae tua 90 o gwmnïau sy'n eiddo i Iwerddon yng Nghymru, gan gyflogi ychydig o dan 6,400 o bobl. Mae cwmnïau sy'n eiddo i Iwerddon yng Nghymru yn cynnwys Eurocaps, Kepak, Kingspan, Nolan Transport a Williams Medical Supplies.

Iwerddon yw ein 7fed buddsoddwr mewnol mwyaf gyda mwy na 30 o fuddsoddiadau wedi digwydd yn ystod y deng mlynedd diwethaf.

Ym mis Cymru 2022, cyhoeddodd DP Energy, wedi'i leoli yn Cork, ei fod wedi agor ei bencadlys yn y DU yn Noc Penfro. Mae'n werth nodi bod y cwmni'n cydnabod yn gyhoeddus y polisïau cefnogol gan Lywodraeth Cymru i gyflawni targedau sero net ac, yn benodol, ein cefnogaeth i ynni adnewyddadwy morol.

Allforion
Yn 2022, roedd allforion nwyddau o Gymru i Iwerddon yn werth tua £3.0 biliwn. Roedd hyn yn cynrychioli tua 14.4 y cant o allforion nwyddau Cymru, a golygai mai Iwerddon oedd ail farchnad allforion fwyaf Cymru. O ran cyd-destun, UDA yw ein marchnad allforio fwyaf ac mae'n werth ychydig o dan £3.4 biliwn. Yn 2021, roedd allforion Cymru i Iwerddon yn werth £1.7 biliwn (11.4% o allforion Cymru a'n trydydd marchnad allforio fwyaf).

Yn 2022, y 5 cynnyrch a allforiwyd fwyaf o Gymru i Iwerddon oedd:
1. Petroliwm, cynhyrchion petroliwm a deunyddiau cysylltiedig (£2 biliwn)
2. Peiriannau ac offer cynhyrchu pŵer (£178.8 miliwn)

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

3. Haearn a dur (£156.4 miliwn)
4. Papur, bwrdd papur (£58.3 miliwn)
5. Metel (£52.7 miliwn)

Mae gwerth allforion nwyddau i Iwerddon, fel nifer o farchnadoedd pwysicaf Cymru, wedi bod yn anwadal dros y blynyddoedd diwethaf.  Ar ôl gostyngiad rhwng 2019 a 2020, a ddigwyddodd yn bennaf oherwydd effaith pandemig Covid-19, mae gwerth allforion nwyddau wedi gwella y tu hwnt i lefelau a welwyd cyn y pandemig ers hynny. Fodd bynnag, mae data diweddar yn awgrymu bod chwyddiant yn chwarae rhan, gyda phwysau chwyddiant yn gwthio pris cynhyrchion i fyny, gan achosi i werth allforion gynyddu ar raddfa gyflymach o'i gymharu â maint yr allforion.  Mae hyn yn arbennig o gyffredin o fewn y sector petroliwm, gyda gwerth allforion petroliwm o Gymru i Iwerddon yn cynyddu'n sydyn, tra bod y cyfaint yn tyfu, ond ar gyfradd arafach.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal teithiau masnach i Iwerddon yn rheolaidd, gyda'r diweddaraf yn cael ei gynnal ym mis Cymru 2023 i gyd-fynd â Dydd Gŵyl Dewi ac ymweliad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg.

<u>Mewnforion</u>
Yn 2022, fe wnaeth Cymru fewnforio gwerth £677.9 miliwn o nwyddau o Iwerddon.

Yn 2022, y 5 cynnyrch a fewnforiwyd fwyaf oedd:
1. Cerrynt trydan (£196.5 miliwn)
2. Peiriannau ac offer cynhyrchu pŵer (£119.8 miliwn)
3. Cig a pharatoadau cig (£112.3 miliwn)
4. Petroliwm, cynhyrchion petroliwm a deunyddiau cysylltiedig (£72.5 miliwn)
5. Offer trafnidiaeth eraill (£23.5 miliwn)

**Llythyr at Lywydd y Comisiwn Ewropeaidd**

Cytunais i ddarparu mwy o wybodaeth am y llythyru rhyngof i ac Ursula von der Leyen; ac atodir y llythyrau ar wahân (yn Cymru yn unig). Fodd bynnag, rwy'n gofyn ichi beidio cyhoeddi'r llythyrau na'u gwneud yn gyhoeddus mewn unrhyw ffordd er mwyn cynnal hyder yr UE yn ein perthynas barhaus.

**Ymweliad gan Ddirprwyaeth Amgueddfa Qatari**

Gallaf gadarnhau bod y trefniadau yn mynd ymlaen yn dda ar gyfer yr ymweliad â Chymru gan ddirprwyaeth o'r Amgueddfa Gelf Islamaidd. Mae'r ddirprwyaeth yn ymweld â Chymru yr wythnos hon a bydd yn teithio i safleoedd yr amgueddfa ledled Cymru, gan gynnwys Sain Ffagan a Blaenafon. Rwyf wedi gofyn i swyddogion weithio gyda'r ddirprwyaeth i weld a oes modd cael cyfarfod gyda'r Pwyllgor. Bydd swyddogion yn cysylltu â Chlerc y Pwyllgor yn uniongyrchol.

Yn gywir

Mark Drakeford

**MARK DRAKEFORD**

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
**—**
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
**—**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Mark Drakeford AS
Y Prif Weinidog
Llywodraeth Cymru

7 Mehefin 2023

Ynghylch: Llythyr yn dilyn sesiwn dystiolaeth weinidogol

Annwyl Mark,

Diolch am ddod i'r Pwyllgor ddydd Mercher, 10 Mai 2023 ar gyfer y sesiwn dystiolaeth ar ein hymchwiliad i gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon, ac am eich llythyr ar 24 May 2023 yn rhoi rhagor o wybodaeth. Yn ystod y cyfarfod, cytunwyd i fynd ar drywydd nifer o faterion, ac rwyf wedi amlinellu'r rhain isod.

## Dyraniad y gyllideb

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael gwybodaeth am ddyraniad y gyllideb ar gyfer gwaith sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithredu Datganiad ar y Cyd a Chynllun Gweithredu ar y Cyd Cymru ac Iwerddon (y Datganiad ar y Cyd).

## Rhannu gwybodaeth

Yn ystod y cyfarfod, buom yn trafod cyfnewid gwybodaeth a syniadau drwy gyfleoedd secondiad. Esboniodd Alun Davies AS fod aelodau'r Pwyllgor, yn ystod ymweliad diweddar y Pwyllgor â Dulyn, wedi cyfarfod â secondai o Lywodraeth Cymru yn Adran Materion Tramor Iwerddon. Egluroch fod y sawl a secondiwyd i fod i ddarparu adroddiad llawn ar eu profiad i gasglu'r gwersi a ddysgwyd a chefnogi gwerthusiad o effeithiolrwydd y fenter. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael copi o'r adroddiad hwnnw pan fydd ar gael.

## PEACE PLUS

Mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad wedi tynnu ein sylw at gytundeb ariannu rhyngwladol ar gyfer parhad y rhaglen PEACE PLUS. Bydd y rhaglen yn parhau i gyd-ariannu gweithgareddau trawsffiniol sy'n hyrwyddo heddwch a chymod ac yn cyfrannu at ddatblygiad economaidd a thiriogaethol trawsffiniol rhanbarth y ffin rhwng Gogledd Iwerddon ac Iwerddon ar ôl Brexit. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael barn Llywodraeth Cymru am gyfraniad y rhaglen at y cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon.

## Fframwaith cysylltiadau Cymru ac Iwerddon

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod gan Lywodraeth Cymru nifer o fentrau a strategaethau ar gyfer cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon, gan gynnwys ei Strategaeth Ryngwladol, y Datganiad ar y Cyd, a'i Fframwaith Môr Iwerddon newydd. A allwch chi egluro sut mae'r mentrau hyn yn gweithio gyda'i gilydd a sut y mae

Gweinidogion yn eu cydgysylltu yn Llywodraeth Cymru. Byddai’n ddefnyddiol hefyd i’r Pwyllgor wybod a oes unrhyw gynlluniau i ddod â’ch holl fentrau Cymru ac Iwerddon ynghyd mewn un lle yn y dyfodol.

## Cydweithrediad rhwng Cymru ac Iwerddon ar ôl Brexit

Roedd eich tystiolaeth ysgrifenedig yn dweud bod swyddogion yn parhau i gydweithio i sicrhau nad yw’r llwyddiannau a gafwyd drwy Raglen Iwerddon a Chymru yn cael eu colli. A allwch chi esbonio'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod hyn yn digwydd.

## Horizon Europe

Yn ystod y cyfarfod buom yn trafod mynediad at Horizon Europe yn dilyn cyhoeddi Fframwaith Windsor. Dywedoch wrthym na fydd cysylltiad â Horizon Europe yn digwydd yn y dyfodol agos. Mae’r Pwyllgor yn awyddus i wybod pryd y mae Llywodraeth Cymru yn meddwl y bydd mynediad at Horizon Europe yn digwydd.

## Datganiad ar y cyd a chynllun gweithredu ar y cyd

Yn ystod ein hymchwiliad, canfuom fod ymwybyddiaeth rhanddeiliaid o’r Datganiad ar y Cyd yn amrywio o ragorol i wael. Rhowch wybod pa fecanweithiau sydd ar waith i sicrhau bod y rhanddeiliaid y cyfeirir atynt yn y Datganiad ar y Cyd yn ymwybodol o'ch ymrwymiadau i gefnogi eu gwaith trawsffiniol.

## Cysylltiadau dwyochrog rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Iwerddon

Mae’r aelodau’n awyddus i wybod mwy am eich rôl yn y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig, a deall a yw hyn wedi newid ers Brexit a sut.

## Cydweithrediad y tu hwnt i 2025

Clywsom yn ystod ein hymweliad diweddar â Dulyn am gynlluniau i adnewyddu’r Datganiad ar y Cyd. Yn eich tystiolaeth ysgrifenedig i’r ymchwiliad hwn, nodoch feysydd allweddol i’w cynnwys mewn datganiadau ar y cyd ag Iwerddon yn y dyfodol, fel cysylltiadau addysgol, cyllid, cysylltiadau economaidd, cydweithredu gwleidyddol, a rhannu polisi. Byddai’r Pwyllgor yn croesawu’r wybodaeth ddiweddaraf am hynt y gwaith hwn a hoffai ddeall sut y bydd rhanddeiliaid Cymru a’r aelodau yn rhan o ddatblygu unrhyw gynllun Cymru ac Iwerddon ar ei newydd wedd.

Yn eich adroddiad swyddfeydd tramor, rydych yn nodi eich bod ar fin llofnodi datganiad ar y cyd â'r Almaen. A allech gadarnhau bod hyn ar wahân i’r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Baden-Württemberg a drafodwyd gennym yn ystod y sesiwn craffu ar gysylltiadau rhyngwladol, ac yn ychwanegol ato. A allech hefyd egluro pam y dewiswyd yr Almaen, ac a fydd y fframwaith ar gyfer cysylltiadau Cymru ac Iwerddon y buom yn ei drafod yn ystod y cyfarfod yn cael ei ddefnyddio fel glasbrint ar gyfer y datganiad ar y cyd newydd hwn.

Edrychwn ymlaen at gael eich ymateb maes o law.

Yn gywir,



Delyth Jewell AS

Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

15 Mai 2023

Annwyl Mark,

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2)

Yn ein cyfarfod ar 9 Mai 2023, gwnaethom drafod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2) (y Memorandwm) am y tro cyntaf.

Mae gennym nifer o gwestiynau i'w gofyn i chi, a fydd yn ein helpu i lywio ein hadroddiad i'r Senedd ar y Memorandwm.

Byddwn yn gwerthfawrogi cael ymateb i’r cwestiynau yn yr Atodiad erbyn 1 Mehefin 2023.

Rwy'n anfon copi o’r llythyr hwn at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ac at Bwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, gan y gallai'r materion hyn fod yn berthnasol i'w gwaith.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

ATODIAD

Cymal 54 (Pŵer awdurdod cyhoeddus i ddatgelu gwybodaeth i berson cofrestredig) a chymal 56 (Cod ymarfer ynghylch datgelu gwybodaeth)

Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth y DU o'r farn nad oes angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 54 a 56 o'r Bil, gan fod y cymalau hyn yn ymwneud â materion a gadwyd yn ôl ym marn Llywodraeth y DU. Nodwn y farn a fynegwyd gennych fod dehongliad Llywodraeth y DU o 'wasanaethau rhyngrwyd', sy'n fater a gadwyd yn ôl, yn "eithriadol o eang", a bod y cymalau hyn yn ymwneud â materion datganoledig yn eich barn chi, sef gwasanaethau cyhoeddus, yr economi a busnes, a'u bod felly yn ddarpariaethau perthnasol at ddibenion Rheol Sefydlog 29.

Cwestiwn 1: Os yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod cymalau 54 a 56 yn ymwneud â meysydd datganoledig – sef gwasanaethau cyhoeddus, yr economi a busnes – a allwch egluro pam na ddylid hefyd ofyn am gydsyniad y Senedd ar gyfer darpariaethau eraill o sylwedd yn Rhan 2 o'r Bil (cymalau 46 i 60)?

Cwestiwn 2: Yn benodol mewn perthynas â chymal 56, ym mharagraff 39 o'r Memorandwm rydych yn nodi bod angen ystyried ymhellach oblygiadau datganoledig Cod Ymarfer ar lefel y DU, ac y byddwch yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf maes o law. A ydych mewn sefyllfa i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd erbyn hyn?

Cymalau 61 i 77 (Rhan 3, Data am Gwsmeriaid a Data am Fusnesau)

Mae cymalau 61 i 77 o'r Bil yn darparu pwerau dirprwyedig amrywiol i'r Ysgrifennydd Gwladol ac i'r Trysorlys.

Cwestiwn 3: Ym mharagraff 42 o'r Memorandwm, rydych yn nodi bod angen ystyried ymhellach oblygiadau datganoledig y pwerau gwneud rheoliadau yng nghymalau 61 i 77 ac y byddwch yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf maes o law. A ydych mewn sefyllfa i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd erbyn hyn?

Cymal 92 (Datgelu gwybodaeth er mwyn gwella gwasanaethau cyhoeddus i ymgymeriadau)

Byddwch yn ymwybodol bod y cymal hwn yn diwygio adran 35 o *Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017* (Deddf 2017) i alluogi cyrff i rannu gwybodaeth i wella'r ffordd y darperir gwasanaethau cyhoeddus i fusnesau, gan ehangu'r trefniant presennol sy'n caniatáu i awdurdodau cyhoeddus penodedig rannu gwybodaeth er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus yn well i unigolion ac aelwydydd. Rhestrir y personau penodedig ("specified persons") yn Atodlen 4 i Ddeddf 2017 ac maent yn cynnwys awdurdodau Cymreig datganoledig amrywiol ("Welsh Bodies"). Mae adran 35 o Ddeddf 2017 yn caniatáu i'r awdurdod cenedlaethol priodol ("appropriate national authority") wneud rheoliadau i

ychwanegu personau penodedig ac amcanion penodedig (“specified objectives”). Mae’r awdurdod cenedlaethol priodol yn cynnwys Gweinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru.

Mae'r diwygiadau a wnaed gan gymal 92 o'r Bil i adran 35 o Ddeddf 2017 yn ymestyn pŵer dirprwyedig sy'n bodoli eisoes (pŵer Harri VIII) sy’n arferadwy gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru, drwy ychwanegu'r gair "undertakings" (sef ymgymeriadau, h.y. busnesau a chyrff elusennol) ochr yn ochr ag unigolion ac aelwydydd. Er enghraifft, byddai gan Weinidogion Cymru y pŵer i osod amcan penodedig â’r diben, yn ddarostyngedig i amodau eraill o dan adran 35, o wella gwasanaeth cyhoeddus a ddarperir i ymgymeriadau. Yn flaenorol, byddai cwmpas y pŵer hwn wedi'i gyfyngu i wella gwasanaeth cyhoeddus i unigolion ac aelwydydd.

Cwestiwn 4: A wnewch chi gadarnhau ein bod wedi deall y safbwynt yn gywir a bod y gwelliannau a wnaed gan gymal 92 yn ymestyn pŵer Harri'r VIII sy'n bodoli eisoes sy'n arferadwy gan Weinidogion Cymru, ac a wnewch chi egluro pam mae’r wybodaeth hon wedi ei hepgor o'r Memorandwm.

Cymal 93 (Rhoi cytundebau rhannu gwybodaeth at ddiben gorfodi’r gyfraith ar waith)

Byddwch yn ymwybodol bod cymal 93 yn rhoi pŵer dirprwyedig i'r Ysgrifennydd Gwladol weithredu, drwy reoliadau, gytundebau rhyngwladol sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth at ddibenion gorfodi'r gyfraith.

Yn y Memorandwm, rydych yn nodi y dylid rhoi pwerau priodol i Weinidogion Cymru allu gwneud rheoliadau at ddiben rhoi cytundeb rhyngwladol ar rannu gwybodaeth ar waith ar gyfer agweddau gorfodi'r gyfraith sydd o fewn cymhwysedd y Senedd, a bod y mater hwn yn destun trafodaethau parhaus â Llywodraeth y DU.

Cwestiwn 5:

a) A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau hyn?

b) Beth yw barn Llywodraeth Cymru am y materion a gadwyd yn ôl a’r materion datganoledig yn y maes hwn?

c) A allwch roi enghraifft o sut y gallai fod yn ofynnol i Lywodraeth Cymru a/neu gyrff cyhoeddus datganoledig gyflawni cytundebau rhyngwladol o dan gymal 93?

ch) A ydych chi'n ymwybodol o gytundebau rhyngwladol sydd ar y gweill a fyddai'n cael eu gweithredu drwy bwerau'r Bil?

d) Gwnaethom fynegi pryderon pan roeddem yn craffu ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Iechyd a Gofal ynghylch y drefn o ddefnyddio is-ddeddfwriaeth i roi cytundebau gofal iechyd rhyngwladol ar waith, fel y cynigir yn y Bil hwn. Bryd hynny, rhoddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sicrwydd y byddai cytundebau o'r fath yn cael eu

llywodraethu gan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhynglywodraethol a gâi ei ddiweddaru i adlewyrchu'r Bil (cawsom fersiwn ym mis Chwefror 2022). A allwch gadarnhau a fydd trefniadau rhynglywodraethol tebyg yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer cytundebau rhyngwladol o dan gymal 93 o'r Bil hwn (pan gaiff y Bil ei ddeddfu, cyhyd â bod hynny'n digwydd)? A yw hyn yn rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei ffafrio?

dd) Pan roeddem yn trafod Confensiwn y DU/y Swistir ar gydlynu nawdd cymdeithasol ym mis Tachwedd 2021, gwnaethoch esbonio nad oedd unrhyw ofynion newydd yn cael eu gosod ar fyrddau iechyd lleol Cymru i gyflawni'r trefniadau oddi tano. Beth yw eich barn ynghylch y graddau y gallai cytundebau rhyngwladol o dan gymal 93 ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru neu gyrff cyhoeddus Cymru gyflawni gofynion ychwanegol?

Cymal 36 (Hysbysiadau cyfweliadau)

Byddwch yn ymwybodol bod cymal 36 yn mewnosod yn *Neddf Diogelu Data 2018* adran 148A newydd sy'n gwneud darpariaeth ynghylch hysbysiadau cyfweliadau, y gellir eu defnyddio i'w gwneud yn ofynnol i berson fynychu cyfweliad ac ateb cwestiynau yn unol â dymuniadau'r Comisiynydd Gwybodaeth (y "Comisiynydd"). Nodwn, yn ymarferol, y bydd y cyfeiriad at y Comisiynydd yn cael ei ddarllen fel cyfeiriad at y Comisiwn Gwybodaeth sydd newydd ei ffurfio, o dan adran 102(2) o'r Bil.

At hynny, mae cymal 36 yn mewnosod adran 148B newydd, sy'n gosod cyfyngiadau penodol ar yr amgylchiadau lle gall y Comisiynydd ei gwneud yn ofynnol i berson ateb cwestiynau o dan hysbysiad cyfweliad. Mae is-adran (9) yn rhestru cyrff na all y Comisiynydd roi hysbysiad cyfweliad iddynt, gan gynnwys: "the Office for Standards in Education, Children's Services and Skills in so far as it is a controller or processor in respect of information processed for the purposes of functions exercisable by His Majesty's Chief Inspector of Education, Children's Services and Skills by virtue of section 5(1)(a) of the Care Standards Act 2000." Mae'r swyddogaethau y cyfeirir atynt yn ymwneud â: chofrestru cartrefi plant yn Lloegr; canolfannau preswyl i deuluoedd yn Lloegr; asiantaethau maethu yn Lloegr neu; pan fydd dwy gangen neu fwy yn gyfrifol am weithgareddau asiantaeth faethu, y canghennau yn Lloegr; asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol y mae eu prif swyddfa yn Lloegr, ac asiantaethau cymorth mabwysiadu yn Lloegr; neu, pan fydd dwy gangen neu fwy yn gyfrifol am weithgareddau asiantaeth cymorth mabwysiadu, y canghennau yn Lloegr.

Nid yw'r Bil yn cynnwys eithriad tebyg ar gyfer swyddogaethau sy'n ymwneud â chofrestru sefydliadau ac asiantaethau tebyg yng Nghymru, gan olygu y bydd y Comisiynydd yn gallu rhoi hysbysiad cyfweliad mewn perthynas â'r materion hynny yng Nghymru ond nid yn Lloegr.

Cwestiwn 6:

a) A wnewch chi egluro a yw Llywodraeth Cymru yn dymuno ac yn ffafrio'r sefyllfa hon?

b) A yw Llywodraeth Cymru wedi cael trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch y ffordd y mae cymal 36 wedi'i ddrafftio a'i effaith yng Nghymru?

Materion eraill

Yn y Memorandwm, rydych yn amlinellu amryw bryderon sydd gennych ynglŷn â'r Bil yn ei gyfanrwydd. Yn benodol, ym mharagraff 34, rydych yn egluro bod yna bryderon bod "cyflwyno'r Bil yn creu risg i benderfyniad digonolrwydd presennol y DU, a roddwyd ym mis Mehefin 2021 gan yr UE am gyfnod o 4 blynedd i ddechrau. Mae'r posibilrwydd o golli penderfyniad digonolrwydd data'r UE yn bryder arbennig o safbwynt masnach gan y byddai hyn yn fygythiad mawr i fusnesau sy'n allforio o Gymru, sydd â'u prif farchnad dramor yn yr UE o hyd."

Cwestiwn 7:

a) A ydych yn gallu ehangu ar y goblygiadau i Gymru pe bai'r penderfyniad digonolrwydd hwnnw gan yr UE yn cael ei golli?

b) Os bydd y Bil yn pasio ar ei ffurf bresennol, beth yw eich barn am ei effaith ar benderfyniad digonolrwydd yr UE?

c) Pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael â Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r mater hwn?

# Eitem 4

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon